

CYFARFOD AR Y CYD AELODAU Y CABINET AR GYFER TREFNIADAETH A'R GWEITHLU A MATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNL

DYDD Llun, 7 Tachwedd 2022

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: C.A. Davies a/ac P.M. Hughes (Aelod o'r Cabinet)

Yn bresennol fel sylwedyddion:-
Y Cynghorwyr

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
L. Evans, Swyddog Polisi a Phartneriaeth
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Rhith-Gyfarfod
- 4.00 - 4.10 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2021-22

Bu'r Aelodau Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-22 a luniwyd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a osododd ddyletswydd gyffredinol newydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:-

- Oedran
- Ailbennu Rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd a Chred – gan gynnwys diffyg cred
- Anabledd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol

Nodwyd mai nod y ddyletswydd oedd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai oedd yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallent gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau pob dydd.

Nodwyd ymhellach ei bod yn ofynnol hefyd i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i:-

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 er mwyn ei gyhoeddi a'i hyrwyddo ar wefan y Cyngor.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD